PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 17 MEHEFIN 2020

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd K Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lay, Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Keith Parry, Sattar a/ac Stubbs |

58 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

59 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Driscoll | 20/00036/MNR | Cynghorydd Ward |

60 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2020 fel cofnod cywir.

61 : GWEITHDREFNAU CYFARFOD RHITHWIR Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor nodi'r newidiadau i'w drefniadau gweithdrefnol yn ystod y cyfnod pan amherir ar weithrediadau busnes arferol oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth yn sgil y pandemig COVID-19 presennol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn CYTUNO i nodi’r newidiadau i'w drefniadau gweithdrefnol yn ystod y cyfnod pan amherir ar weithrediadau busnes arferol oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth yn sgil y pandemig COVID-19 presennol fel y nodir yn Atodiad yr adroddiad hwn.

62 : DEISEBAU

Cais rhif 20/00036/MNR, 28 Hendre Close, Llandaf

Mewn perthynas â'r uchod cyflwynodd y deisebydd ddatganiad ac ymatebodd yr ymgeisydd ar lafar.

63 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Bu’r Pwyllgor yn trafod y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Y dylai’r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1980 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1980:

# CEISIADAU A GANIATEIR

20/00151/DCH – CYNCOED

1 THE FAIRWAY
Cadw’r newidiadau gan y cawson nhw eu gwneud yn unol â dyluniadau caniatâd cynllunio 19/02126/DCH a gymeradwywyd gydag estyniad o 350mm i’r wedd flaen ar y llawr cyntaf

16/01839/MJR – TRELÁI

84-86 SEVENOAKS ROAD
Adeiladu 6 fflat 1 ystafell wely a 4 fflat 2 ystafell wely

# CEISIADAU WEDI’U GWRTHOD

20/00036/MNR – LLANDAF

TŶ’R GOFALWR, YSGOL GYNRADD LLANDAF, 28 HENDRE CLOSE
Newid defnydd o breswyl (C3) i sefydliadol amhreswyl (D1) i'w ddefnyddio fel meithrinfa cyn-ysgol gan drosi'r modurdy presennol i fan chwarae.

# CEISIADAU WEDI’U GOHIRIO

19/01930/MJR – BUTETOWN

CRAWSHAY COURT, 6 CURRAN ROAD
Adeilad â 188 o fflatiau gydag ardaloedd atodol, parcio, man agored cyhoeddus, uned(au) A1/A3 a theras to i breswylwyr.

RHESWM: Gohiriwyd i geisio mwy o fannau parcio beiciau o fewn safle’r cais."

20/00361/MJR – PLASNEWYDD

160-166 STRATHNAIRN STREET
Dymchwel yr holl adeiladau ac adeiladu 12 fflat hunangynhwysol gydag amwynder, storfa feics a storfeydd gwastraff ar y safle.

RHESWM: Gohiriwyd gan fod dyluniadau wedi’u gwrthod
Polisi KP 5 (i) a (x).

64 : CEISIADAU A BENDERFYNIR DRWY BWERAU DIRPRWYEDIG – EBRILL 2020 - MAI 2020

Nodwyd

65 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

66 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 22 GORFFENNAF 2020

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified